

Blaenau Gwent

CYSWILT



www.blaenau-gwent.gov.uk

Ebrill 2026

CYLLIDEB GADARNHAOL A CHYNALIADWY AR GYFER 2026/2027

Yn ystod mis Mawrth, cymeradwydd y cyngor ei gyllideb a gosododd lefel y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r gyllideb yn parhau i gefnogi trigolion agored i niwed, gwarchod gwasanaethau rheng flaen, ac yn cadw cynnydd yn y dreth gyngor mor isel â phosibl ar 3.75 y cant, sy'n is na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol ac yn un o'r cynnydd isaf yng Nghymru.

Mae uchafbwyntiau'r gyllideb yn cynnwys:

- Diogelu gwasanaethau rheng flaen, heb unrhyw doriadau i wasanaethau.
- Cynnydd o 10 y cant mewn cyllid ysgolion.

- £11 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.
- £3 miliwn mewn effeithlonrwydd a gyflawnwyd trwy'r rhaglen Pontio'r Bwlch a chydweithrediad â Chyngor Torfaen.
- Cefnogaeth i grwpiau a chlybiau lleol sy'n cyflenwi Bargen Blaenau Gwent.
- Cynnydd yn y dreth gyngor sy'n cyfateb i 97c yr wythnos ar gyfer eiddo Band A a £1.13 yr wythnos ar gyfer Band B - y bandiau eiddo mwyaf cyffredin yn y fwrdeistref.

Mae setliad cyllido gwell, ynghyd ag ystod o effeithlonrwydd, yn golygu bod y gyllideb yn parhau i ddiogelu a buddsoddi yn y gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl leol. Bydd y gyllideb refeniw, ochr yn ochr â'r rhaglen gyfalaf, yn darparu mwy o fuddsoddiad ar gyfer ysgolion, gwasanaethau amgylcheddol, a phrifyrdd, gan gynnal cefnogaeth i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymuned.

Mae'r gyllideb hefyd yn sicrhau y bydd y cyngor yn arwain y ffordd o ran bod yn gyflogwr teg; gan fod o fudd i'r staff rheng flaen sy'n cael eu talu isaf, fel cynorthwyr addysgu, cynorthwyr arlwy ysgolion, cynorthwyr gofal a gweithwyr sbwriel ac ailgylchu. Bydd y Cyngor yn derbyn £44.34 miliwn o'r dreth gyngor yn 2026/27 sy'n cynrychioli tua 21 y cant o gyllid y Cyngor.

Ac i helpu trigolion sydd fwyaf angen cymorth ariannol, bydd Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn helpu dros 8,000 o drigolion ar incwm isel. Os ydych chi ar incwm isel neu'n derbyn Credyd Cynhwysol neu Gymhorthdal Incwm, efallai y byddwch chi'n gwmys i gael gostyngiad yn eich treth gyngor. Ewch i'n tudalennau gwe y dreth gyngor i wirio.

Dros y pum mlynedd nesaf bydd dros £80 miliwn hefyd yn cael ei fuddsoddi mewn gwaith cyfalaf; gan gynnwys buddsoddi £1.4 miliwn mewn ymestyn Ysgol Gyfun Tredegar, buddsoddi £5 miliwn mewn seilwaith gwastraff a cherbydau, £1 miliwn ar Unedau Diwydiannol, £3.9 miliwn ar grantiau cyfleusterau i bobl anabl, buddsoddiad o £1.2 miliwn mewn rheoli llifogydd, £500,000 ar hen Lyfrgell Abertyleri, £400,000 ar faddonau pen Pwll Llanhilledd.

Trowch i dudalen 2 i weld penawdau'r gyllideb a llawer mwy o wybodaeth am Y Fargen Blaenau Gwent.

Sganiwch y codau QR i wyllo grwpiau cymunedol lleol gan gynnwys Tasglu Llifogydd Cwm, a chyfranogwyr Blaenau Gwent yn bwydo ar y Fron yn esbonio sut maen nhw eisoes yn cyfrannu at Y Fargen Blaenau Gwent.



Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Y tu mewn >>



Pobl ifanc yn gwneud ffilm am eu Blaenau Gwent nhw **gweler tudalen 3**



Mannau chwarae i'w hadnewyddu **gweler tudalen 4**



Trydedd ystafell citiau gymunedol yn agor **gweler tudalen 6**



Trawsnewidiad i dref Abertyleri **gweler tudalen 7**

Buddsoddi mewn ffyrdd a sicrhau cyllid ar gyfer uwchraddio'r A4046

Bydd dros £12.5 miliwn yn cael ei wario ar wella prifffyrdd dros bum mlynedd.



Mae £5.4 miliwn o gyllid cyfalaf yn cael ei fuddsoddi mewn gwaith ail-wynebu rhwng Ebrill 2025 ac Ebrill 2030.

Mae cynllun gwella gwerth £2.5 miliwn i'r A4046, rhwng Aber-bîg a Chwm, hefyd wedi ei gyhoeddi, gyda gwaith i fod i ddechrau yn yr haf.

Mae'r buddsoddiad yn cael ei wneud ochr yn ochr â chyllideb £1 miliwn ar gyfer cynnal a chadw prifffyrdd.

Dywedodd Matt Stent, Rheolwr Gwasanaethau Cymdogaethau: "Rydym yn gwrandao ar ein cymunedau ac yn parhau i fuddsoddi yn ein heolydd. Trwy nodi a sicrhau cyllid ychwanegol, gallwn gyflymu atgyweiriadau hanfodol a pharau i gyflenwi rhaglen ail-wynebu uchelgeisiol a fydd yn gwarchod nifer o'n heolydd am flynyddoedd i ddod.

"Mae'r A4046 yn ffordd hanfodol i'r trigolion a'n busnesau, a bydd y cyllid hwn yn ein galluogi i wneud gwelliannau hanfodol a sicrhau dyfodol hirdymor yr heol allweddol hon."

Ers Medi, mae bron i 50 o heolydd wedi eu hail-wynebu, gydag atgyweiriadau strwythurol ychwanegol wedi eu cwblhau ar rwystrau diogelwch a phontydd. Dewiswyd yr heolydd yn y rhaglen ar ôl arolygiadau manwl a thrafodaeth gydag aelodau ward lleol.

Bydd y gwaith a gynlluniwyd ar yr A4046 rhwng Aber-bîg a Chwm yn darparu gwaith uwchraddio hanfodol fel draenio gwell, ail-wynebu'r briffordd a mesurau diogelwch gwell i warchod y ffordd ar gyfer y tymor hir.

Mae cyllideb prifffyrdd y cyngor yn cynnwys atgyweiriadau brys fel tyllau a phroblemau draenio, yn ogystal â chynnal a chadw'r seilwaith.

CIPOLWG AR GYLLIDEB BLAENAU GWENT 2026/2027

£1 MILIWN
I GYNNAL GWASANAETHAU
AR GYFER CLEIENTIAID
GOFAL CYMDEITHASOL
SY'N OEDOLION



BUDDSODDIAD CYFALAF
£5.4 MILIWN
AR GYFER GWELLIANNAU
FFYRDD DROS Y PUM
MLYNEDD NESAF



ER MWYN CWRDD Â
CHWYDDIANT A BUDDSODDI
MEWN GWASANAETHAU
HANFODOL DROS Y FLWYDDYN
NESAF, MAE CYNNYDD O
3.75% YN Y DRETH GYNGOR
WEDI'I GYMERADWYO

COUNCIL TAX
INCREASE
3.75%
CYNNYDD
TRETH Y CYNGOR

CYNNYDD O
£6.35 MILIWN
NEU ODDEUTU 10%
I FODLONI CHWYDDIANT
CYFLOGAU YSGOLION
A PHWYSAU COSTAU, GAN
GYNNWYS CYMORTH ADY



£409,000
YCHWANEGOL I FODLONI
CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R
DRETH GYNGOR AR GYFER
Y RHAI SYDD FWYAF MEWN
ANGEN, GAN GEFOGI DROS
8,000 O AELWYDYDD



YN HELPU DARPARWYR
GOFAL CYMDEITHASOL
I FODLONI CYNNYDD
YN Y CYFLOG BYW
GWIRIONEDDOL



£600,000
I ARIANNU EFFAITH Y CYFLOG
BYW GWIRIONEDDOL AR GYFER
Y GWEITHWYR SY'N CAEL EU TALU
ISAF YN STRWYTHUR CYFLOGAU'R
CYNGOR



£3.7 MILIWN
I GEFOGI GWASANAETHAU
HAMDDEN A DIWYLLIANNOL
A DDARPERIR GAN
YMDDIRIEDOLAETH
HAMDDEN ANEURIN



ANGEN CYSYLLTU Â NI? ANGEN CYMORTH GYDA GWASANAETH Y CYNGOR NEU GYFEIRIAD AT GYNGOR?



Mae llawer o ffyrdd o gysylltu â'r cyngor a chael gwasanaethau ar-lein, ond os hoffech siarad â swyddog gwasanaeth cwsmeriaid wyneb yn wyneb, mae gennym hybiau cymunedol ym mhob llyfrgell yn y fwrdeistref. Sganiwch y cod QR ar gyfer oriau agor

Yma gallwch gael cymorth a chyngor am:

- Wybodaeth a chyngor Treth y Cyngor ac Ardrethi Annomestig.
- Gwybodaeth a chyngor am fudd-daliadau gan gynnwys Credyd Cynhwysol, gostyngiad Treth y Cyngor, prydau ysgol am ddim, grantiau dillad ysgol a gordal budd-daliadau.
- Cynllun Bathodyn Glas
- Priffyrdd a goleuadau stryd
- Gwastraff ac Ailgylchu

Gallwch hefyd wneud taliadau (cerdyn yn unig) a chasglu bagiau ailgylchu batris a gwastraff bwyd. Ar ddiwrnodau penodol, mae Cyngor ar Bopeth ar gael hefyd, gweler ein gwefan am ragor o fanylion. Ffyrdd eraill o gysylltu â'r cyngor:

- **Fy Ngwasanaethau:** cofrestrwch neu mewngofnodwch drwy ein gwefan
- **E-bost:** info@blaenau-gwent.gov.uk
- **Ap BG:** ar gael i'w lawrlwytho ar ddyfeisiau symudol
- **Ffôn:** 01495 311556 (rhif y tu allan i oriau hefyd)

Mae gan ein hybiau hefyd Swyddogion Allgáu Digidol ar gael i helpu unrhyw un sy'n cael trafferth gyda gwasanaethau ar-lein – galwch i'w gweld!

Codi llai am wefru ym Mlaenau Gwent

Rydym wedi gwrandao ar eich adborth. Er mwyn helpu i wneud gwefru cerbydau trydan cyhoeddus yn fwy fforddiadwy i drigolion, mae Silverstone wedi gostwng y tariff ar gyfer gwefrwyr cyflym Dragon Charging 22kW o 65c/kWh i 55c/kWh. Bydd gwefrwyr cyflym yn aros ar 65c/kWh, sy'n dal i fod ymhlith y cyfraddau mwyaf cystadleuol yn y fwrdeistref. Diolch am rannu eich barn - maen nhw'n ein helpu i wella gwasanaethau lleol.



Cael llais mewn gwasanaethau lleol

Ymunwch ag un o'n fforymau neu cofrestrwch i ddweud eich dweud heddiw! Mae'r cyngor yn cynnal fforymau ymgysylltu lle gall pobl ddweud eu dweud am wasanaethau a phenderfyniadau'r cyngor.

Mae'r rhain yn cynnwys y Rhwydwaith Profiadau Bywyd (i'r rhai â nodweddion gwarchoddedig); y Fforwm 50+ a'r Fforwm Ieuenctid. Gallwch hefyd gofrestru i fod yn rhan o unrhyw ymgynghoriadau yn y dyfodol trwy Fy Ngwasanaethau ar y wefan.

Cynulliad Dinasyddion yn Ilunio Bargen Blaenau Gwent



Mae grŵp o drigolion wedi penderfynu ar saith egwyddor a fydd yn arwain ffordd newydd o weithio rhwng y Cyngor, partneriaid a chymunedau.

Cyfarfu'r Cynulliad Dinasyddion ar dri dydd Sadwrn ym mis Ionawr a mis Chwefror, i ddysgu mwy am y cynlluniau ar gyfer Bargen Blaenau Gwent a phenderfynu sut y bydd yn gweithio'n ymarferol.

Clywodd y Cynulliad gan uwch swyddogion yn y Cyngor a'r gwasanaeth iechyd am y pwysau o gydbwyso galw cynyddol a chyllidebau sy'n lleihau, wrth barhau i helpu pobl i fyw bywydau hapus ac iach. Gwelsant hefyd enghreifftiau o dimau a sefydliadau sydd eisoes yn gweithio gyda chymunedau i nodi a datblygu atebion lleol. **I ddysgu mwy, trowch i dudalennau 4, 5, 6 a 7.**

Cefnogwyd y Cynulliad, a gynhaliwyd yn Sefydliad Glowyr Llanhilledd a'r Swyddfeydd Cyffredinol, gan y sefydliad Partneriaethau Lleol a Sortition Foundation, a ddewisodd gyfranogwyr. Anfonwyd cyfanswm o 12,000 o lythyrau at groestoriad o gartrefi yn

gwahodd pobl i gynnig eu hunain. Ymatebodd dros 200 o drigolion a dewiswyd 40 ar hap. **Dywedodd yr aelod Cynulliad Dinasyddion, Chris Thomas, o Lanhilledd:** "Roeddwn i eisiau bod yn rhan o'r Cynulliad Dinasyddion i weld rhagolygon yn gwella i gymunedau. Dw i'n gobeithio y bydd Bargen Blaenau Gwent yn helpu i adfywio balchder a rhagolygon cymunedol, yn defnyddio amgylchedd naturiol Gwent denu swyddi a digwyddiadau ac yn dod â rhagolygon iachach."

Dywedodd yr Aelod Cynulliad Dinasyddion, Adam Wate, o Dredegar: "Roeddwn i eisiau defnyddio fy llais a'm profiad bywyd i yrru'r meddwl ar gyfer y Fargen orau sydd ar gael i Flaenau Gwent. Dw i eisiau'r gorau i'r lle dw i'n byw, felly gadewch i ni wneud gwahaniaeth gyda'n gilydd. Dw i'n gobeithio y bydd y Fargen yn creu cymunedau cryfach, yn sbarduno gwelliannau yn yr ardal ac yn darparu lle hapusach a mwy cyfeillgar i fyw."

Gweler tudalen 3 i ddarllen egwyddorion y Cynulliad Dinasyddion ar gyfer Bargen Blaenau Gwent.

Bydd y Cynulliad Dinasyddion yn cael ei wahodd i ailymgynnull yn gynnar yn 2027 i roi eu barn ar effaith Bargen Blaenau Gwent

Mae'r Fargen yn dilyn camau eraill a gymerwyd gan y Cyngor i wella iechyd a lles pobl a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Y llynedd, daeth Cynghorau Blaenau Gwent a Thorfaen yn awdurdodau lleol ffederal cyntaf Cymru, sydd wedi golygu y gellir rhannu arferion gorau a lleihau rhai costau. Nhw hefyd oedd y Cynghorau Marmot cyntaf yng

Nghymru, gydag ymrwymiad i fynd i'r afael â gwraidd anghydraddoldebau iechyd - tai, incwm ac addysg, gyda chefnogaeth partneriaid lleol. Rhoddodd pobl eu barn hefyd fel rhan o ymarfer ymgysylltu eang - diolch!

Gallwch gwrrd â rhai o aelodau'r Cynulliad Dinasyddion trwy sganiw'r cod QR





Y Fargen Blaenau Gwent

beth?

5 Cenhadaeth

1. Y Blynyddoedd Cynnar - Adeiladu Dyfodol Disglair
2. Ysbrydoli Dysgu Gydol Oes, Uchelgais a Gwydnwch
3. Lles Trwy Arweinyddiaeth Gymunedol
4. Economi Ffyniannus, Lleoedd Bywiog
5. Grymuso Cymunedau, Rhannu'r Grym a'r Llwyddiant



Y Fargen Blaenau Gwent

sut?

7 Egwyddor

1. Mwy o Ymglymiad Cyhoeddus wrth Lunio'r Lleoedd
2. Meithrin Gwirfoddoli ac Arweinyddiaeth Gymunedol
3. Hybiau Cymunedol
4. Rhannu Grym drwy Ymdrech Ar y Cyd
5. Balchder a Photensial ar gyfer y Dyfodol
6. Ail-greu Canol Trefi Ffyniannus
7. Dysgu a Gwranddo



Bargen Blaenau Gwent yn Ilunio Cynllun 2026/2027

Bydd Bargen Blaenau Gwent a'r Cenhadaethau wedi'u hymgorffori yng nghynllunio gwasanaethau'r cyngor ar gyfer 2026 a thu hwnt, wedi'u cysylltu'n agos â'r blaenoriaethau yn ei Gynllun Corfforaethol.

Bydd cynlluniau gwasanaeth yn amlinellu gweithgareddau a mesurau allweddol a fydd yn helpu'r Cyngor, a'i bartneriaid, i weithio gyda chymunedau ac ymdrin ag anghydraddoldebau yn y fwrdeistref, yn unol â'r egwyddorion a ddatblygwyd gan Gynulliad Dinasyddion Blaenau Gwent.

Mae enghreifftiau'n cynnwys cynlluniau i gefnogi mwy o grwpiau gwydnwch cymunedol i ymateb i ddiwyddiadau brys fel llifogydd; cefnogaeth i glybiau a sefydliadau lleol gymryd drosodd a rhedeg eu cyfleusterau eu hunain a mentrau ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu cymunedol cynyddol.

Mae'r cynllunio hwn yn cael ei gefnogi gan gyllideb 2026/7 y Cyngor, a fydd yn cael ei gyflwyno

ochr yn ochr â gwasanaethau busnes fel arfer y cyngor, megis gwasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant, addysg, gwastraff ac ailgylchu, cynnal a chadw priffyrdd a diogelu'r cyhoedd.

Dywedodd y Prif Weithredwr

Stephen Vickers: "Mae ein cynllunio eleni yn arbennig o bwysig oherwydd ei fod yn dechrau dangos sut y bydd y Cyngor yn gweithio'n wahanol gyda'n cymunedau drwy ein Bargen Blaenau Gwent. "Nid yw'r Fargen ar wahân i'r Cynllun Corfforaethol - dyma'r ffordd y byddwn yn cyflawni ei huchelgeisiau drwy alinio diwylliant, systemau a'n modelau gwasanaeth â'n hamcanion llesiant.

"Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi'r hyn yr ydym am ei gyflawni ac mae Y Fargen yn llunio sut y byddwn yn gweithio gyda'n cymunedau, busnesau a phartneriaid i'w chyflawni.

"Bydd swyddogion yn monitro cynnydd bob chwarter, a bydd adroddiad chwe mis yn cael ei ddarparu i gynghorwyr. Gallwch ddarllen y Cynllun Corfforaethol ar y wefan.

Ffilm pobl ifanc yn dathlu lle maen nhw'n byw!

Mae grŵp o bobl ifanc wedi dod at ei gilydd i wneud ffilm am yr hyn y mae Blaenau Gwent yn ei olygu iddyn nhw.

Dangoswyd 'Ein Blaenau Gwent' i deulu a ffrindiau'r grŵp, yn ogystal â chynghorwyr a phartneriaid lleol, mewn dangosiad arbennig yn Theatr y Metropole yn Abertylery.

Mae'r rhaglen ddogfen yn canolbwyntio ar y bobl a'r lleoedd sy'n golygu fwyaf i'r bobl ifanc dan

syllw, wedi'u hadrodd yn eu geiriau eu hunain, ac yn harneisio ysbryd cymunedol y cymoedd y maent yn eu gwerthfawrogi.

Mae'r ffilm yn rhan o brosiect Celfyddydau BG Creu: Cynhyrchu Ffilm, a gyflwynir mewn partneriaeth â'r cwmni technoleg dysgu Aspire 2Be, gan ddefnyddio cyllid allanol. Cafodd cyfranogwyr gyflwyniad llawn i'r broses o wneud ffilm, gan ddatblygu sgiliau ymchwil, sgrïptio, cyfnewid, cyflwyno a rheolaeth cynhyrchiad.

Dywedodd Erin Richards:

"Roedd gallu gweithio ar y prosiect hwn yn caniatáu i mi fagu fy hyder a hyd yn oed ailgysylltu â ffrind y

collais gysylltiad â nhw ar ôl ysgol. Roedd yn brofiad hynod o wych a ganiataodd i mi ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy y byddwn wrth fy modd yn eu defnyddio yn y dyfodol gyda pha bynnag gyfleoedd a gyflwynir i mi."

Dywedodd Luisa Munro-Morris, Cyfarwyddwr Strategol Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd: "Dywedodd ein Cynulliad Dinasyddion diweddar ar Fargen Blaenau Gwent wrthym eu bod wir eisau gweld pobl ifanc yn cymryd rhan mewn llunio'r lleoedd y maent yn byw ynddynt ac yn ymfalchio yn eu hardal leol, mae hyn wedi rhoi cyfle i bobl ifanc wneud hynny, ac maent wedi'i gofleiddio'n llwyr."

ADDEWIDION Y FARGEN



"Mae'r Fargen yn gontract cymdeithasol newydd rhwng y cyngor, trigolion, cymunedau a phartneriaid. Mae'n ail-lunio'r berthynas rhwng y cyngor a'r cyhoedd drwy symud o "gwneud i" tuag at "gwneud gyda", wedi'i wreiddio mewn cyfrifoldeb a rennir, atal, tegwch, a grym cymunedol" **Stephen Vickers, Prif Weithredwr, Cynghorau Torfaen a Blaenau Gwent**

"Mae'r Fargen Blaenau Gwent yn drawsnewidiol oherwydd ei bod yn newid y sgwrs. Mae'n ein galluogi i lunio sgysiau o amgylch anghenion ein poblogaeth a gwir drawsnewid gwasanaethau yng nghyd-destun y ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac nid yn y ffordd yr ydym yn dymuno darparu gwasanaethau" **Yr Athro Tracy Daszkiewicz, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau Strategol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.**

"Rydym yn falch o gefnogi'r Fargen. Fel y corff cymorth rhanbarthol ar gyfer y sector gwirfoddol a chymunedol (VCS), credwn fod cymunedau gwydn yn cael eu hadeiladu o'r tu mewn, ac mae'r trydydd sector yn ganolog i hynny. Mae pobl leol, grwpiau a gwirfoddolwyr yn hanfodol i lwyddiant Y Fargen. Mae'r sefydliadau rydym yn eu cefnogi eisoes yn dod â chymunedau ynghyd, yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, ac yn gwella lles ar draws Blaenau Gwent. Mae GAVO wedi ymrwymo i chwarae ein rhan - ochr yn ochr â'r gwirfoddolwyr a'r sefydliadau sy'n gwneud Blaenau Gwent yn gryf ac yn fywiog." **Huw Lewis, Arweinydd Strategol Rhanbarthol ar gyfer Blaenau Gwent, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)**

"Mae Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn hynod falch o fod yn rhan bwysig o gefnogi Y Fargen. Fel ymddiriedolaeth elusenol nid-er-elw, rydym yn ail-fuddsoddi pob ceiniog i wella ein gwasanaethau yn ogystal ag archwilio pob ffynhonnell ariannu yn gyson i wella'r cyfleusterau ymhellach a sicrhau eu bod yn gynaliadwy ac yn ateb y gofyn ar gyfer y dyfodol. Mae pob maes Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn chwarae rhan weithredol wrth helpu trigolion i wella eu llesiant corfforol a meddyliol ac rydym yn edrych ymlaen at barhau i wella bywyd cymunedol trwy ein haliniau â'r Fargen." **Phill Sykes, Rheolwr Gyfarwyddwr, Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin**

"Mae'r Fargen yn arloesol ac yn torri tir newydd ac yn rhoi cyfle delfrydol i ni weithio mewn partneriaeth agos â'r Cyngor a rhanddeiliaid allweddol eraill. Bydd Y Fargen yn ein helpu i wir glywed llais cymunedau lleol a chyflawni eu hanghenion, boed trwy ddatblygu cartrefi fforddiadwy newydd, buddsoddi mewn cartrefi presennol neu wella ymddiriedolaeth trwy ffocws deinamig ar bobl a lleoedd lleol." **Andrew Myatt, Cyfarwyddwr Cymunedau a Thai**



Gallwch weld 'Ein Blaenau Gwent' drwy sganio'r Cod QR.



Trawsnewid bwydo ar y fron ym Mlaenau Gwent

Mae partneriaeth bwerau rhwng mamau lleol, gweithwyr iechyd proffesiynol, a'r cyngor, wedi arwain at newid rhyfeddol yng nghyfraddau bwydo ar y fron.

Mae'r ymgyrch 'Blaenau Gwent yn Bwydo ar y Fron' yn helpu i wella canlyniadau'r blynyddoedd cynnar ac yn darparu cefnogaeth a rhydwethiau cymdeithasol i famau newydd.

Roedd gan Flaenau Gwent un o'r cyfraddau bwydo ar y fron isaf yn y DU, ac Ewrop, ffactor sy'n gysylltiedig iawn ag iechyd plant, lles mamau, ac anghydraddoldebau iechyd ehangach. I ddeall pam, trodd y Cyngor a phartneriaid iechyd at y bobl a wyddai orau - y mamau eu hunain.

Trwy sgyrsiau, sesiynau adborth, a thrafodaethau gonest am y rhwystrau yr oeddent yn eu hwynebu, helpodd mamau i lunio dull newydd, a welodd hefyd hwy'n cymryd rhan trwy ddod yn weithwyr cymorth cyfoedion gwirfoddol hyfforddedig. Mae'r gwirfoddolwyr hyn bellach yn rhedeg sesiynau galw heibio a grwpiau cymunedol ar draws y fwrdeistref, gan gynnig croeso cynnes, sicrwydd, a chymorth ymarferol.

Mae mamau lleol hefyd wedi ymddangos gyda balchder mewn hysbysebu ymgyrchoedd.

Mae'r llwyddiant mor fawr nes bod timau blynyddoedd cynnar y Cyngor wedi cyflwyno eu gwaith i gynadleddau cenedlaethol ac i awdurdodau lleol eraill.

Dywedodd un o'r cyfoedion cefnogol Danielle Webb:

"Roeddwn i wir yn gwerthfawrogi cael amser i ddatblygu fel person, nid dim ond fel rhiant. Mae'n deimlad anhygoel trosglwyddo'r hyn dw i wedi'i ddysgu a helpu hyd yn oed un fam arall."

Ychwanegodd gwirfoddolwr arall Alex Klebe:

"Creodd yr hyfforddiant ofod diogel i rannu profiadau a dysgu gan eraill."

Mae'r ymgyrch hefyd yn helpu i newid agweddu a normaleiddio bwydo ar y fron mewn mannau bob dydd. Mae cyfanswm o 87 o adeiladau cyhoeddus a busnesau bellach wedi cofrestru ar gyfer y cynllun Croesawu Bwydo ar y Fron yn y fwrdeistref.

Dywedodd Ceri Bird, Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant:

"Mae'r ymgyrch hon yn newid diwylliant, hyder a chefnogaeth gymunedol o amgylch bwydo ar y fron ym Mlaenau Gwent. Mae'n ymgorffori Bargen Blaenau Gwent ac yn dangos beth y gellir ei gyflawni pan fyddwn yn gweithio gyda'r gymuned a phartneriaid i wneud i rywbeth gwyd digwydd. Pan fyddwn yn gwrandao ar drigolion, yn ymddiried yn eu gwybodaeth, ac yn gweithio gyda'n gilydd, mae newid gwirioneddol ystyrlon yn bosibl."

Mae llwyddiant 'Blaenau Gwent yn Bwydo ar y Fron' yn cael ei ymestyn ymhellach i lwybr maeth newydd, gyda'r nod o annog arferion bwyta iach ymhlith plant ifanc a'u teuluoedd - gyda'r nod hefyd o leihau anghydraddoldebau iechyd fel rhan o'r Fargen.



Disgyblion yn cyhoeddi llyfr ryseitiau

Mae disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymunedol Willowtown, Glynabwy, wedi mynd â dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth trwy greu a chyhoeddi llyfr ryseitiau cymunedol unigryw i blant, gan arddangos treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog eu hardal leol.

Gwelodd y prosiect, a oedd yn cael ei arwain yn gyfan gwbl gan ddisgyblion, blant yn dewis ryseitiau gan deuluoedd o fewn y gymuned leol, amlddiwylliannol, gan gynnwys seigiau a drysorwyd a basiwyd i lawr trwy genedlaethau. O'r dechrau i'r diwedd, ymchwiliodd, ysgrifennodd a darluniodd y disgyblion y llyfr eu hunain, gan ddangos creadigrwydd, gwaith tîm, ac ymdeimlad cryf o gymuned.

Wedi'i gynllunio fel llyfr coginio i ddechreuwyd, sy'n addas i blant, mae'r cyhoeddiad yn anelu at annog teuluoedd i goginio gyda'i gilydd, meithrin hyder yn y gegin, ac ysbrydoli annibyniaeth.

Dywedodd y Pennaeth Mel Evans said: "Mae'r prosiect hwn yn enghraifft wych o lais y disgybl a dysgu creadigol ar waith. Mae ein plant wedi gweithio'n anhygoel o galed i gynhyrchu rhywbeth ystyrlon sy'n dathlu dysgu a chymuned."



Dywedodd Caleb Rich, disgybl Blwyddyn 5: "Aethpwyd â'r tatws a'r letys rydyn ni wedi'u tyfu yn ein gardd gymunedol i'n Siop Big Bocs Bwyd a chymerodd rhai rhieni nhw adref a gwneud pryd iach. Rwy'n mwynhau dysgu am sut i dyfu bwyd a sut i'w wneud yn iach." Gall y gymuned leol gael mynediad at becynnau prydu bwyd ac eitemau o'r Big Bocs Bwyd, gan helpu i wella arferion bwyta a chefnogi teuluoedd ar incwm isel.

Cefnogir hyn gan grŵp o wirfoddolwyr sy'n rhieni y gellir ymddiried ynddynt y mae eu cefnogaeth yn parhau i wneud y prosiect yn llwyddiant. Gallwch brynu copi o'r llyfr o'r ysgol neu Amazon nawr!

Buddsoddiad o dros £200,000 mewn mannau chwarae

Bydd tri pharc i blant yn cael eu hadnewyddu. Bydd offer chwarae newydd modern a hygyrch yn cael ei osod yn:

- Parc Pennant Street, Glynabwy
- Brynawel, Brynmawr
- Maes Hamdden, Brynmawr

Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos gydag aelodau etholedig lleol i nodi beth sydd ei angen ar bob safle, gyda ffocws ar ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ac elfennau chwarae hygyrch lle bynnag y bo modd.

Mewn sawl ardal, mae mannau chwarae hefyd yn cael eu cynnal a'u cefnogi gan grwpiau cymunedol lleol. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio ar y cyd â'r grwpiau hyn i helpu i sicrhau cyllid a dod o hyd i offer addas, gan adlewyrchu ethos cydweithredol Bargen Blaenau Gwent.

Mae'r buddsoddiad diweddaraf hwn yn adeiladu

ar gyfres o welliannau a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda blaenoriaethau wedi'u nodi trwy adolygiad o gyfleusterau chwarae yn 2019. Ochr yn ochr â'r gwaith adnewyddu, mae gwaith ar y gweill i ddatblygu Strategaeth Chwarae newydd ar gyfer Blaenau Gwent, ac roedd cymunedau'n gallu rhannu eu barn ar gyfleusterau chwarae.

Blaenoriaeth yw rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn ac mae chwarae mor bwysig ar gyfer datblygiad eu sgiliau gwybyddol, corfforol, cymdeithasol ac emosiynol. Bydd y gwelliannau hyn, sydd eu hangen yn fawr, yn sicrhau bod gan blant fannau diogel, hwyliog a chynhwysol i'w mwynhau.



Cymuned Ddysgu Canolfan yr Afon yn cael ei chanmol am ei hamgylchedd meithringar a chynhwysol

Tynnwyd Cymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon ym Mlaenau Gwent o'r categori mesurau arbennig yn dilyn ymweliad monitro hynod gadarnhaol gan Estyn.

Cadarnhaodd Estyn fod yr ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn yr holl argymhellion, gan amlygu arweinyddiaeth gryfach, ymddygiad gwell gan ddisgyblion a diwylliant mwy meithringar a chynhwysol ar draws yr ysgol.

Nododd arolygwyr sefydlogrwydd arweinyddiaeth gwell, strwythur staffio sefydlog a gweledigaeth glir a rennir yn canolbwyntio

ar ddiwallu anghenion emosiynol disgyblion. Gwnaethant hefyd arsylwi ar ymddygiad cadarnhaol, cyson, gyda disgyblion yn cael eu disgrifio fel rhai tawel, parchus ac yn ymgysylltu.

Mae Cymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon yn darparu addysg a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol (SEMH) neu sy'n methu mynychu ysgol brif ffrwd am gyfnod o amser.



Gwirfoddolwyr casglu sbwriel Lakeview yn Arwain y Ffordd

Mae grŵp ymroddedig o wirfoddolwyr o Ganolfan Ddydd Lakeview ym Mrynawr yn gwneud gwahaniaeth mawr yn eu cymuned gyda sesiynau casglu sbwriel wythnosol.

Wedi'u cofrestru gyda Cadwch Gymru'n Daclus, mae'r grŵp yn cynnwys unigolion ag amrywiaeth o alluoedd sy'n gweithio gyda Darpariaeth Allgymorth Cymunedol y Cyngor - i gadw strydoedd lleol yn lân ac yn groesawgar.

Mae'r gwirfoddolwyr yn casglu rhwng pedwar a chwe bag o sbwriel yn rheolaidd fesul sesiwn, gan fynd i'r afael â manau problemus lleol fel ymylon ffyrdd, priffyrdd, ac ardaloedd o amgylch y parc manwerthu yn y dref. Y llynedd, fe gasglon nhw 170 o fagiau sbwriel sylweddol.

Mae trigolion yn aml yn stopio i ddiolch i'r grŵp, sy'n rhannu gyda balchder eu mwynhad o'r gwaith a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud.

Mae busnesau lleol wedi ymuno hefyd, gan gynnwys McDonald's.



Mae'r ymdrech ar y cyd hon yn adlewyrchu ethos Y Fargen - cymunedau, sefydliadau, a thrigolion yn gweithio gyda'i gilydd i warchod a gwella'r lle rydym yn byw.

Mae'r grŵp bellach yn dysgu Leihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu ac yn archwilio ffyrdd creadigol o aildefnyddio deunyddiau. Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys ymweliadau â chanolfannau ailgylchu lleol a Chyfleuster Adfer Ynni Caerdydd i ddyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae gwastraff yn dod yn adnodd ar gyfer pweru cartrefi.

Mae eu neges yn syml: mae gan bawb ran i'w chwarae wrth gadw Blaenau Gwent yn lân, yn wyrdd ac yn falch.



Buddsoddiad wedi'i gymeradwyo ar gyfer Ysgol Gyfun Tredegar

Mae gwaith ar y gweill ar estyniad i Ysgol Gyfun Tredegar gyda lle newydd ar gyfer dysgu a chyfleusterau arlwyio a ffreutur wedi'u huwchraddio.

Mae'r prosiect, a gyflwynir gan y contractwyr Knox & Wells, yn cynnwys estyniad bach ac ailfodelu prif adeilad yr ysgol, gan greu amgylchedd dysgu ac addysgu mwy hyblyg i ddisgyblion a staff.

Blaenoriaeth y Cyngor yw i bob person ifanc fod yn uchelgeisiol, yn iach ac i gyrraedd eu potensial llawn.

Bydd yr ailfodelu yn darparu amgylchedd dysgu a fydd yn cefnogi ein pobl ifanc yn hyn o beth, ac yn darparu lle modern, hyblyg i staff a disgyblion a fydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'w bywyd ysgol nawr ac yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r gwaith i fod i gael ei gwblhau yn ddiweddarach eleni.



Disgyblion yn gwneud celf am Ddim mewn colli allan

Mae disgyblion ysgol wedi bod yn brysur yn dylunio posteri i hyrwyddo ein hymgyrch presenoldeb ysgol newydd - 'Ddim Yno Colli Allan'.

Rydym yn gweithio gydag ysgolion i hybu cyfraddau presenoldeb yn y fwrdeistref sirol, gan hyrwyddo'r ysgol fel rhywbeth pwysig ar gyfer dysgu ond hefyd ar gyfer ystod eang o bethau eraill, fel llesiant corfforol a meddyliol, cymdeithasu a hwyl!

YR ENILLWYR TALENTOG YW:

Ysgol Uwchradd: Courtney Callaghan (Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr)

Cynradd: Enillydd - Mohkam Singh (Campws ALC Six Bells)

Ail - Isobel Prosser (Ysgol Gynradd Sant Joseff)

Babanod: Enillydd - Bobby Jones (Campws ALC Stryd Tyleri)

Ail - Maggie Reed (Campws ALC Stryd Tyleri)

Rhaglen brentisiaethau yn ennill gwobr partneriaeth

Mae ein Rhaglen Rhannu Prentisiaeth - **Aspire** - yn enillydd gwobr genedlaethol! Enillodd tîm **Aspire**, ynghyd â chydweithwyr yng nghynllun **Merthyr Aspire**, y **Wobr Cydweithio a Phartneriaeth yng Ngwobrau Iese**.

Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod ymdrechion sefydliadau'r sector cyhoeddus i wella a thrawsnewid gwasanaethau lleol, gan ddathlu gwaith rhagorol cynghorau, cyrff cyhoeddus, a'u partneriaid.

Aspire yw lle mae busnesau wir yn profi eu gwerth fel rhan o'r Fargen, gan weithio gyda chefnogaeth y Cyngor

a darparwyr hyfforddiant i gymryd prentisiaid, gan roi cyfle i bobl gael gyrfa gynaliadwy a datblygu gweithlu medrus ar gyfer y rhanbarth.



YN GRYNO

Estyniad Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr ar agor

Mae disgyblion yn mwynhau lle ychwanegol mewn ystafelloedd dosbarth a manau bwyta yng nghyfnod uwchradd Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr.

Mae carreg filltir bwysig yn nhaith yr ysgol yn cynnwys chwe ystafell ddosbarth newydd sbon a darpariaeth ffreutur bwrpasol. Cynlluniwyd y lle newydd gwych gyda disgyblion wrth wraidd y lle, ac mae'n amgylchedd dysgu modern, llachar sy'n cefnogi creadigrwydd, cydweithio ac addysgu o ansawdd uchel.

Cydnabyddiaeth arbennig i gynorthwydd arlwyio ysgol

Mae Sonia Blanchard wedi derbyn tystysgrif cydnabyddiaeth arbennig gan y Cyngor am ei gwasanaeth hir.

Mae Sonia, 81 oed, yn dal i weini ciniawau yn Ysgol Gynradd Cwm. Mae ei hymrwymiad, ei chynhesrwydd a'i hegri diflino wedi cael effaith barhaol ar genedlaethau o blant yn y pentref. Diolch Sonia!



Blaen-y-Cwm yn cael ei chanmol gan Estyn

Da iawn i Ysgol Gynradd Blaen-y-Cwm ym Mrynawr am eu hadroddiad arolygu gan Estyn.

Nododd arolygwyr ymrwymiad i greu amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn ffynnu'n academiaidd ac yn bersonol.



Meithrin gwydnwch cymunedol drwy natur

Mae Coetiroedd Bryn Sirhywi yn enghraifft drawiadol o sut y gall pobl ddod at ei gilydd i adeiladu cymuned gydnerth a ffyniannus.

Er gwaethaf ymdrechion ailblannu rhwng 1985 a 1990, roedd y coetiroedd wedi'u hesgeuluso i raddau helaeth am ddegawdau. Daeth sbwriel, mynediad gwael, a diffyg cynnal a chadw yn bryderon cynyddol i drigolion, gan ysgogi galwadau am weithredu a gwledigaeth newydd ar gyfer y safle.

Yn lle camu'n ôl, ffurfiodd trigolion Gwmni Buddiant Cymunedol Cyfeillion Coetiroedd Sirhywi, grŵp sydd wedi ymrwymo i reoli, adfer a hyrwyddo'r warchodfa natur. Mae hyn wedi troi'n gymuned wirfoddol fywiog, aml-genhedlaeth, pob un wedi'i huno gan angerdd dros feithrin natur a gwneud y coetiroedd yn ased lleol gwerthfawr.

Mae tîm amgylchedd naturiol y cyngor yn cefnogi'r grŵp i gael mynediad at gyllid a chyflwyno gweithgareddau sy'n cyfrannu

at goetiroedd o ansawdd uchel, wedi'u rheoli'n dda, sy'n hygyrch i bawb. Bargaen Blaenau Gwent ar waith!

Mae gwirfoddolwyr wedi derbyn hyfforddiant mewn rheoli coetiroedd cynaliadwy, tyfu bwyd, a stiwardiaeth natur, ac yn gweithio i greu mannau gwyrdd croesawgar ar gyfer lles a dysgu yn yr awyr agored.

Mae casglu sbwriel rheolaidd yn dod â thrigolion ynghyd i wella'r coetir, cymdeithasu a mwynhau manteision bod yn yr awyr agored. Mae gweithredoedd bach wedi cronni i greu gwarchodfa natur lanach a mwy croesawgar.

Mae hwb llesiant newydd ar y safle bellach yn darparu cyfleoedd dysgu blynyddoedd cynnar ac yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer digwyddiadau cymunedol ac effaith amgylcheddol gadarnhaol, ac mae'r hyn a ddechreuodd fel llain syml wedi tyfu i fod yn ardd gymunedol lewyrchus. Trwy

sesiynau 'O'r Planhigion i'r Plât', mae grwpiau ysgol lleol yn dysgu sut mae bwyd yn cael ei dyfu mewn ffyrdd sy'n ystyriol o natur - gan helpu i feithrin arferion iachach a hybu llythrennedd bwyd.

Dywedodd Nadine Morgan, ecolegydd y cyngor: "Gan weithio gyda'r grŵp, rydym wedi ymrwymo i greu safle amrywiol biolegol lle mae rheolaeth wybodus yn cynyddu gwerth ar gyfer cadwraeth natur. Mae ymrwymiad y grŵp wedi llunio Coetiroedd Bryn Sirhowy yn safle deinamig, amlbwrpas ar gyfer dysgu, ymchwil ac arloesi - gyda'r gymuned wedi'i gwreiddio ynddi."



Mae pobl ym Mlaenau Gwent wrth eu bodd â'u llyfrgelloedd!

Mae mwy o bobl ym Mlaenau Gwent yn dweud bod eu llyfrgell leol wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w bywydau nag unrhyw le arall yng Nghymru.

Perfformiodd llyfrgelloedd yn y fwrdeistref yn eithriadol o dda yn 2024/25, yn ôl adroddiad safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, gyda'r niferoedd yn cynyddu 26 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae llyfrgelloedd ym Mlaenau Gwent yn cael eu rheoli gan

Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, mewn partneriaeth â'r cyngor.

Y dyddiau hyn, mae llyfrgelloedd yn ymwneud â mwy na llyfrau yn unig, maent yn cynnig ystod eang o wasanaethau a chymorth.

Mae hyn yn cynnwys mentrau cynhwysiant digidol, Cyngor ar Bopeth a Hybiau Cymunedol y Cyngor sy'n darparu cyngor wyneb yn wyneb ar wasanaethau'r Cyngor. Mae yna hefyd ystod o glybiau a grwpiau

cymdeithasol a gynhelir yn y lleoliadau. Mae llyfrgelloedd wrth wraidd ein cymunedau. Maent yn darparu llawer mwy na llyfrau - maent yn cynnig mannau lle mae pobl yn cysylltu, yn dysgu, ac yn cael mynediad at gefnogaeth a gwasanaethau hanfodol.



Y Cae Perffaith yng Nglynebwy

Mae cae 3G Canolfan Chwaraeon Glynebwy wedi'i adnewyddu - gan warchod cyfleuster chwaraeon allweddol am flynyddoedd i ddod.

Mae'r cae yn gwasanaethu llawer o glybiau, ysgolion a grwpiau cymunedol ar draws Blaenau Gwent. Mae'r gwaith

adnewyddu hwn yn sicrhau bod y cae yn bodloni safonau perfformiad modern ac yn parhau i ddarparu arwynebedd chwarae diogel o ansawdd uchel i dimau lleol a phobl ifanc.

Mae'r cyfleuster hwn yn fwy na dim ond cae chwaraeon. Mae'n ased cymunedol sy'n cefnogi iechyd, lles a chyfranogiad ar bob lefel.



YSTAFELL CITIAU CYMUNEDOL YN AGOR YNG NGLYNEBWWY



Mae un o bartneriaid Y Fargen, Hamdden Aneurin, yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb trwy helpu unrhyw un sydd eisieu cymryd rhan mewn cit mynediad i chwaraeon.

Mae trydedd Ystafell Citiau Gymunedol wedi'i hagor yng Nghanolfan Chwaraeon Glynebwy, gydag ystafelloedd citiau eisoes wedi'u sefydlu yn Abertyleri a Thredegar.

Mae Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn rhedeg cyfleusterau hamdden a

diwylliannol ac addysg oedolion ym Mlaenau Gwent, gan gynnwys canolfannau chwaraeon, Tŷ a Pharc Bedwellty a Pharc Bryn Bach.

Mae prosiect yr ystafell citiau yn darparu dillad chwaraeon am ddim i blant ac oedolion ac mae wedi cefnogi dros 600 o bobl hyd yn hyn, gan helpu i leihau rhwystrau ariannol i gyfranogiad a hyrwyddo cynhwysiant, lles, a mynediad at chwaraeon ar draws y gymuned. **Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cefnogi'r fenter hyd yn hyn.**

Anrhydeddu Cyd-sylfaenydd Hosbis

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno Tystysgrif Cydnabyddiaeth Arbennig i Jayne Medlicott MBE, cyd-sylfaenydd Hosbis y Cymoedd.

Dathlwyd Jayne fel rhan o Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod a gydnabu eleni gyfraniad menywod sy'n cryfhau ein cymunedau trwy arweinyddiaeth, tosturi ac ymrwymiad.

Cyflwynwyd y wobr i Jayne mewn cyflwyniad arbennig yn Nhŷ a Pharc Bedwellty, lle myfyriodd gwesteion ar effaith sylweddol gwaith Jayne ar wasanaethau lleol a gofal cymunedol ar draws Blaenau Gwent. Chwaraeodd Jayne ran ganolog yn sefydlu Hosbis y Cymoedd, wedi'i hysbrydoli gan ei phrofiad personol o ofalu am ei gŵr,

Glyn. O ddechreuadau bach yn Nhredegar gyda thîm bach, helpodd Jayne i ddatblygu un o wasanaethau gofal lliniarol yn y cartref 24 awr cyntaf Cymru.



"Roedd yn anrhydedd aruthrol derbyn y wobr hon" meddai Jayne. "Roedd yn hyfryd dod â fy meibion, cyn-gydwethwyr, staff presennol, a chynghorwyr ynghyd i fyfyrto ar daith Hosbis y Cymoedd, ac i ddathlu sut mae'n parhau i dyfu a chefnogi cymaint o deuluoedd ar draws ein cymuned."

DIY SOS yn arddull Abertyleri!

Daeth y cyngor, busnesau, trigolion a chynghorwyr lleol ynghyd ar gyfer hwb wythnos gyfan yn Abertyleri, gan orffen gyda thrawsnewidiad un dydd o Stryd Somerset.

Daeth y gymuned ynghyd i roi sgleini i'r stryd, gan gynnwys paentio dodrefn stryd, paentio murluniau, glanhau, gosod baneri, a hyd yn oed lapio siopau gwag mewn finyl

Cyn hyn cynhaliwyd cyfres o sesiynau gyda busnesau a'r gymuned leol i archwilio sut mae annog pobl i ddefnyddio canol y dref.

Dangosodd y trawsnewidiad fis Mawrth yr hyn sy'n bosibl gyda chydweithio, creadigrwydd ac ychydig iawn o arian. Galwodd hyn am gefnogaeth wirioneddol gan y gymuned – diolch i bawb a ddaeth ac a helpodd i ddangos beth y gellir ei gyflawni pan fo pawb yn



gweithio gyda'i gilydd. Dyma yw Y Fargen!



CGDLI ar y gweill
Mae Cynghorwyr ym Mlaenau Gwent a Thorfaen wedi cefnogi cynnig ar gyfer Cydgyllun Datblygu Lleol (CGDLI).

Datblygir Cynlluniau Datblygu Lleol gan awdurdodau lleol i arwain datblygiadau yn y dyfodol, defnydd tir a gofynion seilwaith dros gyfnod o 15 mlynedd.

Dywedwyd wrth gynghorwyr y byddai CGDLI yn cymryd hyd at chwe mis yn hirach i'w gwblhau na Chynlluniau Datblygu Lleol Rhanbarthol ar wahân ond ei fod yn cynnig mwy o fanteision o ran arbedion cost, cynlluniau ar gyfer strategaeth "glasbrint ar gyfer twf" ar y cyd, dylanwad rhanbarthol cryfach mewn fforymau rhanbarthol a chenedlaethol a mwy o effaith wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol.

Cymeradwyodd Cynghorwyr yn y ddau awdurdod yr opsiwn ar gyfer CGDLI a bydd y ddau Gynllun Datblygu Lleol Rhanbarthol yn cael eu tynnu'n ôl, a bydd angen i Lywodraeth Cymru eu cymeradwyo.

Amser am wanwyn glân!
Diolch i bawb a gymerodd ran yn nigwyddiad gwanwyn glân blynyddol Cadwch Gymru'n Daclus.

Roedd y digwyddiadau'n cynnwys: Digwyddiad a drefnwyd gan y cyngor gyda dosbarth o Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair ym Mrynawr, ynghyd â myfyrwyr o Goleg Gwent, yn casglu sbwriel Canol y dyffryn yng Nglynebwy; Mae trigolion o Gwmtlyeri ac aelodau o Bentref Tlyeri yn casglu sbwriel o amgylch Cae Jim Owen a'r ardal gyfagos dros ddau diwrnod; Grŵp Cymunedol Brynithel yn casglu sbwriel ym Brynithel a'r cyffiniau.




Cymunedau i lunio dyfodol economaidd

Mae cynllun uchelgeisiol ar gyfer twf economaidd ac adfywio sy'n cael ei lunio gan drigolion wedi'i osod allan gan Gynghorau Torfaen a Blaenau Gwent. Mae Ffynnu Gyda'n Gilydd – Coridor Twf y Cymoedd Technoleg yn weledigaeth ar y cyd i greu rhanbarth mwy llewyrchus i drigolion, cymunedau a busnesau erbyn 2035, gan ganolbwyntio ar dair thema gyffredinol: Seilwaith a Buddsoddi, Twf Busnes a Chyflogaeth a Phobl a Sgiliau.

Mae'r glasbrint 10 mlynedd yn strategaeth wahanol oherwydd bydd yn cael ei datblygu a'i chyflwyno gyda chymunedau. Er enghraifft, bydd dyfodol canol trefi yn cael ei nodi a'i lunio gan y bobl sy'n eu defnyddio, gyda blaenoriaethau gwahanol ar gyfer trefi unigol.

Yng Nghwm Sirhywi, bydd Bwrdd Cymdogaeth newydd yn cael ei sefydlu erbyn yr haf hwn. Bydd y bwrdd yn cynnwys trigolion a phartneriaid, a fydd yn penderfynu ar y prosiectau, gan rymuso cymunedau i feddwl am yr hyn y maent am ei weld.

Ar draws y fwrdeistref, bydd arian hefyd ar gael i wella mannau cymunedol, mannau chwarae plant a'r stryd fawr yn Nantyglo, Blaenau a Brynmawr. Bydd Cydgyllun Datblygu Lleol ar y cyd yn cefnogi'r cynllun. Bydd manylion ynghylch sut i gymryd rhan ar gael yn fuan.



Cyhoeddir Cyswilt BG gan Gyngor Blaenau Gwent

Fe'i cynhyrchir yn fewnol a'i argraffu gan Reach PLC ar bapur o 100 y cant o ffibrau wedi eu hailgylchu gydag ardystiadau FSC, PEFC a Blue Angel. Mae Cyswilt BG yn cael ei ddosbarthu i gartref ledeld Blaenau Gwent ac mae nifer fach ar gael hefyd mewn canolfannau gofal cwsmeriaid a llyfrgelloedd.

Mae'n costio 19c i ddylunio, argraffu a chludo i'ch cartref. Ar ôl darllen, rhwch y papur i'w ailgylchu.

Cryfhau ymateb i lifogydd a gwydnwch cymunedol

Mae'r Cyngor wedi paratoi'n well ar gyfer rhybuddion tywydd ac wedi cynnal uwchraddiadau seilwaith sylweddol mewn ardaloedd a effeithiwyd gan lifogydd yn flaenorol.

Yn ogystal â hyn, rydym wedi bod yn gweithio'n agosach gyda cymunedau ar wydnwch a cynllunio - grymuso a arfogi nhw i helpu eu hunain mewn cyfnod o argyfwng, wedi'i ysbrydoli gan Fargen newydd Blaenau Gwent.

Gwnaeth adolygiad annibynnol a gynhaliwyd ar ôl Storm Bert 19 o argymhellion ar gyfer gwella. Mae'r Cyngor wedi ymateb i sicrhau diogelwch a lles trigolion yn ystod tywydd garw.

Mae cwteri a chwlfertau critigol yn cael eu harchwilio'n rheolaidd, ac

mae synwryddion newydd wedi'u gosod mewn rhai ardaloedd sy'n monitro lefelau dŵr ac yn helpu i wella amseroedd ymateb.

Mae gwaith draenio sylweddol wedi'i wneud yng Nghwm a Llanhilledd, gyda gatiâu llifogydd i'w darparu ar gyfer eiddo a nodwyd fel y rhai sydd fwyaf mewn perygl.

Mae'r trefniadau hyn wedi'u profi'n dda yn ystod sawl storm a rhybudd y gaef hwn.

Yn Cwm, mae'r Tasglu Llifogydd, grŵp a sefydlwyd gan drigolion i weithio'n agos gyda'r Cyngor a'i gefnogi ganddo, wedi mynd o nerth i nerth. Mae hyb argyfwng wedi'i sefydlu, sachau llifogydd FloodSax wedi'u dosbarthu, a hyfforddiant wedi'i ddarparu i rymuso trigolion a chryfhau parodrwydd yn lleol. **Dywed aelod o Dasglu Llifogydd**

Cwm, Sallie Jones: "Rydym am wneud beth bynnag y gallwn ei wneud, mewn partneriaeth a chyda chefnogaeth gan y cyngor, i gadw ein cymuned yn ddiogel ac wedi'i chefnogi yn ystod argyfwng. Yn ein profiad ni, mae'r cyngor bellach yn llawer mwy parod ar gyfer rhybuddion tywydd, gan weithio'n agos gyda ni a'r gymuned leol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau. "Gyda'n gilydd, rydym yn fwy gwydn ac mewn gwel sefyllfa i allu mynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn y dyfodol!"



Gwirfoddolwyr yn trwsio eitemau cartref am ddim

Mae dros 600 o eitemau wedi cael bywyd newydd mewn caffis trwsio ym Mlaenau Gwent.

Mae caffis trwsio yn bartneriaeth rhwng y cyngor, sefydliadau lleol ac aelodau talentog o'r gymuned sy'n rhoi eu hamser am ddim i drwsio eitemau cartref sydd wedi torri pobl.

Mae hwn yn enghraifft wych o'r Fargen, gan na fyddai hyn yn bosibl heb y gwirfoddolwyr ymroddedig.

O sugnwyr llwch a setiau teledu i emwaith a theganau plant, mae cannoedd o waith trwsio llwyddiannus wedi'u cynnal. Mae'r caffis hefyd yn helpu pobl i roi hwb i'w hyder, dysgu sgiliau newydd a chymdeithasu, gan helpu lles a chysylltiad cymunedol.

Mae Luke Mason yn wirfoddolwr

yng Nghaffi Trwsio Rasa yng Nglynebwy. Dywedodd: "Mae helpu eraill yn ffordd onest a gofalgar o fyw eich bywyd. Y teimlad gorau yw dod â hapusrwydd i gleientiaid y gallem fod wedi datrys eu problemau." Mae'r cyngor yn edrych i gynyddu nifer y caffis trwsio – cadwch lygad allan am hyn.

Darganfyddwch ble cynhelir caffis trwsio ar ein gwefan.



Eich Treth Gyngor ar gyfer 2026/2027

Bydd y cyngor yn derbyn £44.3 miliwn o'r dreth gyngor yn 2026/27. Mae hyn yn cynrychioli tua 21% yn unig o'n cyllid. Mae'r cyngor yn gweinyddu Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor, sy'n helpu dros 8,000 o drigolion ar incwm isel.



Mae'r rhagolygon ariannol yn parhau i fod yn heriol gyda bwch cyllido o £8.7 miliwn i fynd i'r afael ag ef rhwng Ebrill 2027 ac Ebrill 2031.



Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd	£97,910,150
Oedolion a Chymunedau	£48,240,940
Economi a Lle	£4,926,530
Gwasanaethau Cymdogaeth	£24,121,030
Gwasanaethau Corfforaethol	£15,139,230
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	£11,329,040
Cyllid Cyfalaf a chostau eraill	£8,317,370

Hunanwasanaeth Treth y Cyngor 2026/2027

Oeddech chi'n gwybod bod y rhan fwyaf o wasanaethau'r Dreth Gyngor ar gael ar-lein nawr? Defnyddio ein gwasanaeth ar-lein yw'r ffordd gyflymaf a hawsaf o reoli eich treth gyngor. Gallwch:

- **Rhoi gwybod am newidiadau**
- **Gwneud taliadau**
- **Gwneud cais am ostyngiadau**

Gallwch wneud hyn mewn un lle, ar adeg sy'n gyfleus i chi. Ewch i dudalennau'r dreth gyngor ar ein gwefan ap Blaenau Gwent i ddechrau arni.

	Gwariant ar wasanaethau £*		Incwm o wasanaethau £*		Gwariant net £	
	2025/26	2026/27	2025/26	2026/27	2025/26	2026/27
Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd	113,389,170	122,873,890	23,159,560	24,963,740	90,229,610	97,910,150
Oedolion a Chymunedau	59,378,560	60,947,390	12,222,950	12,706,450	47,155,610	48,240,940
Economi a Lle	9,766,510	9,461,510	5,359,200	4,534,980	4,407,310	4,926,530
Gwasanaethau Cymdogaeth	29,782,580	30,777,210	6,654,560	6,656,180	23,128,020	24,121,030
Gwasanaethau Corfforaethol	19,759,930	21,631,980	5,816,560	6,492,750	13,943,370	15,139,230
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	10,919,560	11,329,040	0	0	10,919,560	11,329,040
Cymhorthdal Budd-dal Tai	26,636,480	26,637,370	26,751,880	26,751,880	-115,400	-114,510
Cyllid Cyfalaf a chostau eraill	11,880,500	11,880,500	0	0	7,577,730	8,317,370
CYFANSWM GWASANAETH	281,513,290	295,538,890	79,964,710	82,105,980	197,245,810	209,869,780

GOFYNION PRAESEPT

Mae praesept yn swm blynyddol y mae sefydliadau fel yr heddlu a chynghorau cymuned yn ei godi am eu gwasanaethau ac mae'r cyngor yn ei gasglu ar eu rhan.



Cadw gwasanaethau lleol hanfodol i fynd a chadw biliau'r dreth gyngor mor isel â phosibl.



A phraeseptau gan:		
Cynghorau Cymuned	767,820	789,410
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent	7,998,210	8,558,924
Cyfanswm cyn cyllid:	206,011,840	219,218,114
Ffynnonellau cyllid:		
Grant Cymorth Refeniw	130,414,000	142,196,000
Ardrethi Annomestig	24,120,000	23,334,000
Ariennir gan y Dreth Gyngor	51,477,840	53,688,114

	£ Swm Praesept 2025/26	£ Swm Praesept 2026/27	£ Cynnydd
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent	7,998,210	8,558,924	560,714
Cynghorau Cymuned:			
Abertyleri a Llanhilledd	434,023	445,611	11,588
Bryn-mawr	50,000	50,000	0
Nant-y-glo a Blaenau	105,000	115,000	10,000
Tredegar	178,797	178,797	0
CYFANSWM:	8,766,030	9,348,332	582,302

BIL Y DRETH GYNGOR

Mae crynodeb o gyfanswm tâl y Dreth Gyngor ar gyfer 2026/27 sy'n cwmpasu Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cynghorau Cymuned a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent ar gyfer pob band priso'r dreth gyngor isod:

	A £	B £	C £	D £	E £	F £	G £	H £	I £
Abertyleri	1,726.25	2,013.95	2,301.66	2,589.37	3,164.79	3,740.20	4,315.62	5,178.74	6,041.86
Brynmawr	1,681.91	1,962.22	2,242.54	2,522.86	3,083.50	3,644.13	4,204.77	5,045.72	5,886.67
Nantyglo a Blaenau	1,690.74	1,972.53	2,254.31	2,536.11	3,099.69	3,663.27	4,226.85	5,072.22	5,917.59
Tredegar	1,687.59	1,968.85	2,250.11	2,531.38	3,093.91	3,656.44	4,218.97	5,062.76	5,906.55
Glynebwy	1,662.69	1,939.80	2,216.91	2,494.03	3,048.26	3,602.49	4,156.72	4,988.06	5,819.40

CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae angen i ni gadw cronfeydd wrth gefn a darpariaethau i helpu gydag amgylchiadau annisgwyl. Rydym wedi defnyddio ein cronfeydd wrth gefn yn 2025/26, ac yn bwriadu eu defnyddio ymhellach yn 2026/27. Cronfeydd refeniw wrth gefn wedi'u cynllunio ar gyfer 2026/2027 - £2m i sefydlu cronfa pontio i ateb y galw o fewn gwasanaethau Plant a chyllid i gefnogi'r Fargen a Gwrthdaro Teuluol. Mae'r tabl hwn yn nodi ein sefyllfaoedd gwirioneddol ac amcangyfrifedig.

	31/03/2025 (Dros dro)	31/03/2026 (Rhagolwg)	31/03/2027 (Rhagolwg)
Cronfa'r Cyngor	13,969	12,472	12,472
Cronfeydd Refeniw wedi'u Clustnodi	29,042	28,315	26,315
Cronfeydd Refeniw wedi'u Clustnodi - Dibenion Cyfalaf	4,911	5,161	5,362
Cydbwysedd Ariannol Ysgolion	-1,277	-3,864	-3,864
CYFANSWM	46,645	42,084	40,285